OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1510 (Cy.114)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005

Wedi'u gwneud - -	*7 Mehefin 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 101(1) a (2) a 195(1) a (2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

mae "cyflogai" ("*employee*"), mewn cysylltiad â darparydd gwasanaeth, yn cynnwys aelod neu ymddiriedolwr;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darparydd gwasanaeth" ("*service provider*") yw person nad yw'n awdurdod lleol ac sy'n darparu, sydd wedi darparu neu sydd wedi cytuno i ddarparu un o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn rheoliad 2 isod.

Pŵer i ofyn am esboniadau

2.—(1) Yn unol â pharagraff (2) caiff y Cynulliad ofyn i unrhyw berson a ragnodir ym mharagraff (3) i roi iddo, neu i berson a awdurdodir ganddo, esboniad ar unrhyw un o'r canlynol—

(a) unrhyw ddogfennau, cofnodion neu eitemau a arolygwyd, a gopïwyd neu a gynhyrchwyd o dan adrannau 98 i 100 o'r Ddeddf;

(**1**) 2003 p.43. *Gweler* adran 148 o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "prescribed".